Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Deulu Dolgellau
**Drill Hall**
**Smithfield Street**
**Dolgellau**
**Gwynedd**
**LL40 1DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Deulu Dolgellau

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Canolfan Deulu Dolgellau |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Eirian Davenport ac Eleri Lewis |
| Person â gofal | Eleri Lewis, Eirian Davenport, Denise Williams, Mari Davies, Dilys Owen, Catrin Jones ac Anthea Evans |
| Nifer y lleoedd | 48 gydag 18 ar ôl ysgol |
| Amrediad oedran y plant | 0-11 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 22 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 09:15 a 18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 04/07/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16/05/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/06/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Ers arolygiad diwethaf Estyn, mae'r lleoliad wedi newid enw i Ganolfan Deulu Dolgellau ac wedi symud o festri capel i adeilad sydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol ac yn cynnwys gwasanaeth Dechrau'n Deg.  Cynigir sesiynau i blant o oed cyn-ysgol (Cylch Meithrin a Dechrau'n Deg), a sesiynau ar ôl yr ysgol.  Mae mwyafrif y plant yn dod i mewn i'r lleoliad o gartrefi sy'n siarad Saesneg.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Herio plant mwy abl yn gyson

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol

A3 Sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau TGCh y plant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â rheoli newid yn llwyddiannus a gwneud defnydd o gysylltiadau lleol i gyfoethogi profiadau'r plant, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn setlo'n dda wrth adael eu rhieni. Mae rhan fwyaf y plant yn penderfynu a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn dewis o’r ystod eang o weithgareddau ac ardaloedd chwarae y tu fewn a thu allan ac yn symud rhyngddynt yn hyderus. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau’n dda ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn hoffi arbrofi ac archwilio’r eira ffug, cuddio’r anifeiliaid bach ynddo cyn defnyddio offer gwahanol i symud a thyrchu yn yr eira.

Mae rhan fwyaf y plant yn teimlo’n ddiogel ac yn ddigon hyderus wrth fynegi barn, rhannu syniadau ac ateb cwestiynau syml gan wybod y bydd eu barn yn cael ei pharchu. Mae bron pob plentyn yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthynas bositif gyda’r ymarferwyr. Mae hyn yn rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae rhan fwyaf y plant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, mae llawer o’r plant yn awyddus i sefyll o flaen eu ffrindiau i ganu cân yn ystod amser canu gan wenu a dangos balchder wrth i bawb glapio ar ôl iddynt orffen.

Mae rhan fwyaf y plant yn rhyngweithio’n dda gyda’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’u ffrindiau, er enghraifft wrth gwblhau posau siâp. Mae rhan fwyaf y plant yn hapus i rannu adnoddau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig fel cymryd tro yn effeithiol. Mae’r plant hŷn yn ffurfio cyfeillgarwch cadarnhaol tuag at blant llai wrth eu helpu i chwarae gemau neu yn ystod gweithgaredd crefft.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae’r rhan fwyaf yn awyddus i wneud pethau drostynt eu hunain fel golchi dwylo ac arllwys diod. Fodd bynnag, nid yw’r plant sy’n mynychu’r clwb ar ôl ysgol yn helpu digon gyda thasgau yn ystod amser byrbryd er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau hunangymorth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw ychydig o blant mwy galluog bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ar oedolion a'i gilydd. Maent yn ymateb i gyfarwyddiadau yn gywir gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o’r hyn a ddywedir wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau arferol a gweithgareddau newydd fel mynd ati i chwilio am drychfilod. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i gwestiynau’r ymarferwyr yn ystod y gweithgareddau ac mae’r plant sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o eirfa a chystrawen naturiol wrth

drafod gydag oedolion. Mae llawer yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys ac yn gwybod sut i ddal llyfr a throi'r tudalennau yn gywir. Maent yn ymateb yn dda i storïau ac yn ateb cwestiynau'n gywir, er enghraifft am sawl mwydyn oedd yn stori Rala Rwdins a Mwydyn yn y Jam. Mae llawer yn gwneud marciau'n effeithiol a chyda rheolaeth gynyddol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn bwrpasol wrth greu cerdyn Sul y tadau.

Mae medrau rhif llawer o blant yn datblygu'n effeithiol ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i 10 ac yn uwch yn llwyddiannus ac maent yn dechrau cyfateb rhifau â gwrthrychau wrth ddefnyddio offer mathemategol yn effeithiol. Mae llawer yn adnabod patrymau ac yn dilyn patrwm syml yn llwyddiannus, yn enwedig wrth ddefnyddio'r tedis lliw neu baru hosanau. Mae llawer yn enwi siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd ac yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau perthnasol fel 'trwm' ac 'ysgafn' wrth chwarae yn y twb tywod.

Ar y cyfan, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn defnyddio chwyddwydr electronig er mwyn astudio pethau yn yr ardd synhwyrau ac yna dynnu llun ohono. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu eu medrau creadigol hefyd. Mae medrau datrys problemau yn datblygu'n llwyddiannus. Enghreifftiau da o hyn yw drwy reoli tegan i symud a throi o un siâp i siâp arall ac wrth ddatrys sut i greu cartref i'r trychfilod. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn trwy ystod o weithgareddau diddorol. Mae llawer yn defnyddio offer chwarae mawr gyda rheolaeth gynyddol wrth lywio beiciau ar hyd llwybr pwrpasol a gallant gydbwyso'n dda wrth fynd o garreg i garreg. Mae medrau echddygol manwl yn datblygu'n dda gyda'r rhan fwyaf o blant yn mowldio, gwasgu ac ymestyn toes ac wrth ddefnyddio offer bach yn annibynnol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Maent wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol ar ddiogelu plant ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r bron pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint ac mae bron pob un wedi derbyn hyfforddiant hylendid bwyd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled ac wrth ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Serch hynny, nid ydynt yn annog y plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol i olchi eu dwylo cyn bwyta byrbrydau yn ddigon cyson. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus gan sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol ar gael i ddatblygu medrau corfforol y plant ac i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach. Trwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i blant frwsio eu dannedd yn ddyddiol a thrwy annog rhieni i ddarparu byrbrydau iach ar gyfer eu plant, mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo byw'n iach yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd positif gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant gydag anwyldeb ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgareddau eraill fel bo'r angen ac yn esbonio'n syml beth sy'n ddisgwyliedig pan mae plant yn dangos unrhyw ymddygiad heriol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod y plant hyn yn derbyn cefnogaeth addas. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddatblygiad pob plentyn er mwyn adnabod unrhyw anawsterau ac er mwyn cynllunio i fodloni anghenion unigol y plant. Mae dyddiaduron dyddiol cynhwysfawr ar gyfer y plant ieuengaf yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am amser eu plant yn y lleoliad.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. O ganlyniad, maent yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n adlewyrchu diddordebau'r plant ac yn adeiladu ar yr hyn y maent yn ei wybod yn bwrpasol. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd pwrpasol rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n teilwra gweithgareddau i herio pob plentyn hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai mwy galluog.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu plant yn effeithiol iawn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ymweliadau misol â'r cartref henoed lleol. Mae hyn yn pontio'r gagendor rhwng y cenedlaethau'n llwyddiannus iawn ac yn magu hyder y plant i gymdeithasu a siarad Cymraeg y tu allan i'r ganolfan deulu. Gwneir defnydd cyson o ymwelwyr fel yr heddlu a gweithwyr tân er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o bobl sy'n ein helpu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n sicrhau bod plant yn ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau yn ystod gweithgareddau parhaus ac ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus iawn. Enghraifft o hyn yw datrys y broblem o beth sydd angen ei gasglu o'r ardd tu allan i greu cysgodfa bwrpasol ar gyfer trychfilod a chyfri sawl pry lludw a ganfuwyd o dan y boncyff yng nghanol y glaw. Er bod cyfleoedd cyson i'r plant ddefnyddio TGCh fel rhan o'u dysgu, nid yw'r ymarferwyr yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau cyfoethog i ddatblygu medrau moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod drwy arsylwi ar drychfilod wrth greu gwesty iddynt.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas waith hyfryd sydd rhwng yr ymarferwyr â'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad plant gan ymyrryd yn briodol yn chwarae plant a holi plant yn bwrpasol yn ystod eu tasgau. Fodd bynnag, nid ydynt yn holi cwestiynau digon heriol i blant mwy galluog yn ddigon cyson. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn gyson ac yn atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn fedrus. Mae hyn, ynghyd â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig, yn sicrhau bod yr ethos Cymreig yn gryf.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn datblygu gweithdrefnau effeithiol i arsylwi ac asesu eu datblygiad. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r disgwyliadau ar gyfer pob maes dysgu yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau i gynllunio’r camau nesaf dysgu ar gyfer plant unigol ac i gyfoethogi’r cynllunio. Enghraifft benodol o hyn yw sylwi bod dealltwriaeth a defnydd llawer o’r plant o arddodiaid yn wan ac, o ganlyniad, cynhwyswyd hyn yn sesiynau'r wythnos ganlynol. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am sut mae eu plant yn symud ymlaen yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau priodol i fonitro a rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol. Er enghraifft, mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posibl a’r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant.

Mae’r ddwy brif ystafell chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o’u cwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant ar y waliau. Mae’r ystafelloedd wedi eu trefnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae rôl wedi ei gosod fel siop flodau i gyd-fynd â’r thema bresennol, sef yr ardd. Mae’r ardaloedd chwarae allanol yn ddeniadol iawn ac yn cynnig nifer fawr o brofiadau cyffrous. Mae hyn yn ennyn diddordeb y plant yn effeithiol ac yn rhoi cyfle gwerthfawr iddynt ddatblygu medrau corfforol a chreadigol, er enghraifft drwy ddefnyddio’r offer dringo a thrwy greu cerddoriaeth gyda’r offer taro yn yr ardd synhwyrau. Fodd bynnag, er bod y plant sy’n mynychu’r clwb ar ôl ysgol yn cael defnydd o’r amgylchedd i gyd, nid yw’r arweinwyr wedi rhoi sylw digon priodol i un o’r ystafelloedd a ddefnyddir gan nad yw’n hollol addas ar eu cyfer.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn y prif ystafelloedd. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn glanhau’r offer a’r teganau’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da, er nid ydynt yn cadw cofnod o pryd mae’r tasgau hyn yn cael eu cwblhau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o’u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi’r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth blannu blodau ac wrth dreulio amser yn arbrofi yn y ceginau mwd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y ganolfan deulu ac maent yn rhannu a gwireddu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn. Un o’r cryfderau amlwg yw’r modd hynod llwyddiannus y mae’r arweinwyr wedi cydweithio â nifer o bartneriaid i ehangu’r ddarpariaeth yn sylweddol iawn. Maent wedi gwneud hyn gan sicrhau bod yr holl staff yn gweithredu ar weithdrefnau a pholisïau’r lleoliad yn gadarn. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i gyflawni safonau da o ran y ddarpariaeth newydd.

Mae arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae plant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn sicrhau bod pob ymarferydd yn deall eu rolau a’u

cyfrifoldebau yn glir gan osod disgwyliadau uchel a her i bawb wneud eu gorau. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn help i wireddu hyn yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithredu'n llyfn a threfnus a bod staff yn cynnal safonau uchel drwy eu goruchwylio a'u cefnogi i ofalu am y plant o ddydd i ddydd.

Mae gan y ganolfan berthynas fuddiol gyda'r pwyllgor rheoli. Mae'r pwyllgor yn cwrdd o leiaf bob tymor ac yn derbyn gwybodaeth bwrpasol am rediad a chynnydd y ganolfan. Rhennir canfyddiadau arfarniadau gyda'r pwyllgor ond nid yw rôl y pwyllgor yn y broses hunanwerthuso wedi datblygu'n ddigon cadarn eto.

Mae'r arweinwyr yn gwerthuso'r ddarpariaeth a'i heffaith ar ddeilliannau plant yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar farn y plant ac ystyried safbwyntiau'r rhieni a'r staff. Mae'r broses yn manteisio ar dystiolaeth uniongyrchol ac yn cynnwys barn partneriaid allanol fel swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Trwy'r broses hunanwerthuso, mae arweinwyr yn nodi'n gywir gryfderau'r lleoliad a bron pob maes sydd angen ei wella. Ar y cyfan, mae'r cynllun datblygu yn delio'n bwrpasol â'r meysydd i'w gwella ac mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau yn rheolaidd.

Mae hanes llwyddiannus o gynllunio strategol cadarn sy'n arwain at welliannau amlwg. Mae effaith y cynllunio ar gyfer gwella i'w gweld amlycaf yn y prosesau cofnodi ac arsylwi. Er enghraifft, trefnodd yr arweinwyr bod athrawes gefnogi yr awdurdod lleol yn cynnal hyfforddiant mewnol ar ddulliau arsylwi a chofnodi arsylwadau. O ganlyniad, mae pob ymarferydd yn cadw cofnodion dyddiol ac mae'r arweinwyr wedi sicrhau digon o gyllid i ariannu hanner awr ychwanegol yr wythnos i bob ymarferydd drosglwyddo'r wybodaeth i'r ffeil asesu er mwyn ei ddefnyddio i fwydo'r cynllunio. Mae hyn yn cael effaith bositif ar y cynllunio a'r asesu ac mae gan bob ymarferydd wybodaeth gyfredol am ddatblygiad pob plentyn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau digon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn unol â'u cryfderau i fodloni anghenion y plant. Enghraifft benodol o hyn yw penodi cymhorthydd yn ddirprwy arweinydd gyda chyfrifoldeb am grwpiau iaith. Mae system effeithiol iawn o oruchwylio a gwerthuso ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig. Mae arweinwyr yn cydgysylltu targedau sy'n deillio o'r broses hon â blaenoriaethau yn y cynllun gwella yn effeithiol. Drwy hyn, mae arweinwyr yn cefnogi staff i wella eu perfformiad yn effeithiol iawn. Gwneir defnydd pwrpasol o werthusiadau blynyddol sydd yn olrhain perfformiad staff ac yn dangos sut mae perfformiad y staff yn gwella mewn meysydd yr oedd angen iddynt gael eu datblygu. Er enghraifft, bu i'r broses adnabod bod angen cryfhau medrau cynnal ymddygiad ychydig o'r staff a threfnwyd hyfforddiant pwrpasol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad yn dda.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid a'r gymuned. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at godi safonau a hyrwyddo lles y plant. Enghraifft hynod lwyddiannus o hyn yw'r bartneriaeth â'r cartref henoed lleol. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant ac mae rhieni'n rhoi canmoliaeth uchel i'r lleoliad am ei gryfder yn y maes hwn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2019